

# Rhestr Termâu

---

*Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg hefyd*

Dyma eglurhad o rai o'r termâu y byddwch chi'n dod ar eu traws:

**Buddiolwyr:** y rheiny a fydd yn elwa yn uniongyrchol yn sgil y Gronfa Ffyniant Gyffredin, unigolion a busnesau, neu sefydliadau eraill fel rheol.

**Costau cyfalaf:** eitemau neu gyfarpar sydd arnoch chi angen eu prynu, adeiladu neu atgyweirio.

**Costau craidd:** costau gweithredu o ddydd i ddydd, e.e. rhent, biliau gwasanaethau.

**Gwerthuso:** sut y byddwch yn asesu perfformiad eich prosiect.

**Tystiolaeth:** ffeithiau a phrawf sy'n cefnogi eich hawliadau.

**Dangosyddion:** metrigau a ddefnyddir i fesur cyflwr neu lefel y gwariant, allbynnau neu ganlyniadau.

**Ymyriadau:** gweithgareddau penodol a nodir gan Lywodraeth y DU i gefnogi amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Defnyddir rhifau W i'w nodi yn nogfen Ymyriadau, Amcanion ac Allbynnau Cymru.

**Meysydd blaenoriaethu buddsoddiad:** y tri maes a nodir gan Lywodraeth y DU fel blaenoriaeth fuddsoddi dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin: Cymuned a Lleoedd, Cefnogi Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau.

**Awdurdodau arweiniol:** cyrff llywodraeth leol a nodir gan Lywodraeth y DU i fod yn gyfrifol am gyllid a gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn yr ardaloedd gwahanol. Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer gogledd Cymru.

**Arian cyfatebol:** cyllid o fwy nag un ffynhonnell i dalu costau prosiect.

**Cerrig milltir:** targedau dros dro sy'n dangos cynnydd tuag at gyrraedd eich nod.

**Monitro:** y dulliau a ddefnyddiwyd i gael gwybod sut mae pethau'n mynd efo'ch prosiect.

**Canlyniadau:** effeithiau tymor byr a thymor canolig neu'r 'newidiadau sylweddol' sy'n digwydd yn sgil yr allbynnau ac sydd angen digwydd er mwyn cyflawni'r effeithiau a'r canlyniadau hirdymor.

**Allbynnau:** y pethau mae'r prosiect yn eu darparu. Gall y rhain gynnwys gwasanaethau, cynnyrch, ymyriadau neu ddarpariaethau eraill. Mae allbynnau wedi'u dylunio i fod yn ffordd i fesur canlyniadau. Maen nhw fel rheol yn weddol

hawdd eu mesur, e.e. nifer y bobl wedi'u cefnogi neu gyfanswm y gofod llawr a grëwyd.

**Prosiectau:** mae prosiectau yn darparu cyfres o weithgareddau i gyflawni amcanion penodol. Gall un prosiect gynnwys sawl un o'r ymyriadau.

**Derbynwyr:** y cwmnïau neu'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu un neu fwy o'i brosiectau.

**Cyllid ôl-weithredol:** cyllid ar gyfer gweithgareddau sydd eisoes wedi'u cynnal

**Costau refeniw:** pethau sydd arnoch chi angen talu amdany'n nhw sydd ddim yn wrthrychau neu'n adeiladau ffisegol. Gall hyn gynnwys costau cyflog, lluniaeth, treuliau gwirfoddolwyr, llogi lleoliad a chyhoedduswydd.

**Gwariant:** y gwariant sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect, sydd wedi'i anfonebu a'i dalu.